# GBE-N Sign Collaboration Agreement with IACC

**25.3.2026 - | Her Majesty's Revenue and Customs**

**GBE-N and Isle of Anglesey County Council have signed a Collaboration Agreement to support delivery of the UK Small Modular Reactors at Wylfa.**

Mae Great British Energy – Nuclear (GBE-N) a Chyngor Sir Ynys Môn wedi llofnodi Cytundeb Cydweithio heddiw sy'n nodi sut y bydd y ddau sefydliad yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi cyflawni Adweithyddion Modiwlaidd Bach cyntaf y DU yn Wylfa.

Bydd y cytundeb yn sicrhau partneriaeth dryloyw, effeithlon, barchus a chadarnhaol, gyda'r nod o sicrhau canlyniadau cadarnhaol i gymunedau'r Ynys, gan gefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

**Yr Egwyddorion Cyffredinol ar gyfer Cydweithio yw:**

- Ymrwymiad ac Atebolrwydd

  Bydd y ddau sefydliad yn gweithredu'n dryloyw, yn cyflawni cyfrifoldebau a gytunwyd, ac yn cynnal trefniadau llywodraethu a llwybrau adrodd clir ar gyfer gweithgareddau cydweithredol.

- Cyfathrebu

  Bydd cyfathrebu'n agored, yn amserol ac yn rhagweithiol. Mae'r ddau bartner yn ymrwymo i negeseuon cydlynol, prosesau briffio ar y cyd, ac atgyfeirio'n gynnar unrhyw faterion posibl.

- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

  Byddwn yn cynnal y safonau uchaf o ran cydraddoldeb, gan sicrhau ymgysylltu hygyrch, dileu gwahaniaethu, a chefnogi'r rheini sy'n wynebu anfantais.

- Atal a Diogelu

  Mae diogelu'n gyfrifoldeb a rennir. Bydd yr holl waith ar y cyd yn cael ei gynllunio a'i gyflawni mewn ffordd sy'n diogelu plant, oedolion ac unigolion bregus.

- Datblygu Cynaliadwy

  Bydd y ddau sefydliad yn ystyried llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol hirdymor penderfyniadau.

- Arloesi

  Bydd y ddau sefydliad yn ceisio dulliau arloesol sy'n cael eu llywio gan ddata, ac yn cofleidio

offer digidol lle bo'n briodol i wella canlyniadau ac ymgysylltu.

Dywedodd Kenny Douglas, Cyfarwyddwr DevCo, GBE-N:
"Rydw i'n hynod o falch o allu arwyddo'r cytundeb hwn ar ran GBE-N heddiw. Yn y misoedd ers y cyhoeddwyd Wylfa fel ein prif safle datblygu rydw i wedi gweld â'm llygaid fy hun yr angerdd sy'n bodoli ar gyfer sicrhau'r buddion gorau ar gyfer pobl Môn gan ein prosiect. Ein cyfrifoldeb ni yw cyflawni'r potensial hwnnw ac mae GBE-N yn edrych ymlaen at gydweithio â Chyngor Sir Ynys Môn dros y blynyddoedd i ddod."

Ychwanegodd Dylan J. Williams, Prif Weithredwr Cyngor Môn:
"Fel awdurdod sydd â phrofiad helaeth o brosiectau ynni mawr, mae gennym arbenigedd technegol sylweddol, gwybodaeth leol a dealltwriaeth fanwl o gymunedau'r Ynys. Mae'r profiad hwn yn ein rhoi mewn sefyllfa gryf i allu dylanwadu ar GBE-N a'i gontractwyr mewn ffordd fydd yn sicrhau'r buddion lleol a rhanbarthol gorau, yn sicrhau bod y prosiect yn cael ei ddarparu mewn modd cyfrifol gan amddiffyn nodweddion unigryw'r Ynys, ei diwylliant a'r iaith Gymraeg.

"Mae'r cyfleoedd economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r rhaglen SMR arfaethedig yn sylweddol. Rydym yn benderfynol o sicrhau bod Ynys Môn yn y sefyllfa orau posibl i allu manteisio ar y cyfleoedd hyn – boed hynny o ran swyddi newydd, llwybrau sgiliau, datblygiad y gadwyn gyflenwi leol, gwell isadeiledd neu fuddsoddiadau cymunedol hirdymor."

Croesawodd Arweinydd y Cyngor a'r deilydd portffolio Datblygu Economaidd Ynys Môn, y Cynghorydd Gary Pritchard, y cytundeb gan ddweud:
"Mae cytundeb heddiw yn ffurfioli ein hymrwymiad i gydweithio'n agos â GBE-N wrth iddynt ymchwilio i'r ddarpariaeth o SMRs yn Wylfa. Mae ein blaenoriaeth yn glir – sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer pobl Ynys Môn, tra'n sicrhau bod unrhyw risgiau'n cael eu rheoli'n iawn a bod llais yr Ynys yn cael ei chlywed drwy gydol y broses ddatblygu."

"Edrychwn ymlaen at barhau â'r bartneriaeth adeiladol hon ac at sicrhau bod y prosiect yn dod â buddion hirdymor, cadarnhaol i Ynys Môn a'i chymunedau."

**Ynglŷn â GBE-N**

Great British Energy - Nuclear (GBE-N) yw corff cyflawni'r llywodraeth sy'n ymroddedig i gefnogi datblygu a defnyddio technolegau niwclear newydd yn y DU. Fel corff hyd braich i'r Adran Diogelwch Ynni a Sero Net, mae GBE-N yn helpu i sicrhau diogelwch ynni hirdymor, cefnogi targedau sero net, a hyrwyddo buddsoddi ac arloesi ar draws y sector niwclear.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag Ieuan Williams, Pennaeth Cyfathrebu, GBE-N: ieuan.williams@greatbritishnuclear.uk.

**Collaboration Agreement is another step forward for Wylfa**

Great British Energy - Nuclear (GBE-N) and Isle of Anglesey County Council (IACC) have today signed a Collaboration Agreement which sets out how the two organisations will work together to support delivery of the UK's first Small Modular Reactors at Wylfa.

The agreement will ensure a transparent, efficient, respectful, and positive partnership, aimed at delivering positive outcomes for the Island's community while supporting economic, social, environmental and cultural wellbeing.

**The General Principles for Collaboration are:**

- Commitment and Accountability

Both organisations will act transparently, fulfil agreed responsibilities, and maintain clear governance and reporting routes for collaborative activities

- Communication

Communication will be open, timely, and proactive. Both partners commit to coordinated messaging, shared briefing processes, and early escalation of potential issues

- Equality and Diversity

We will uphold the highest standards of equality, ensuring accessible engagement, eliminating discrimination, and supporting those facing disadvantage

- Prevention and Safeguarding

Safeguarding is a shared responsibility. All joint work will be designed and delivered in a way that protects children, adults, and vulnerable individuals

- Sustainable Development

Both organisations will consider the longterm economic, social, environmental and cultural well-being of decisions

- Innovation

Both organisations will seek innovative, data informed approaches and embrace digital tools where appropriate to improve outcomes and engagement

Kenny Douglas, DevCo Director, GBE-N, said:
"I'm incredibly proud to sign this agreement on behalf of GBE-N today. In the months since Wylfa was announced as our primary development site, I have seen first-hand the passion there is to maximise the benefits of our project for the people of Anglesey. It is our responsibility to deliver on that potential, and GBE-N looks forward to working with the Isle of Anglesey County Council over the years to come."

Dylan J. Williams, Chief Executive of IACC, added:
"As an authority with extensive experience of major energy proposals, we bring considerable technical expertise, local knowledge and an indepth understanding of the Island's communities. This experience places us in a strong position to influence GBEN and its contractors in ways that maximise local and regional benefits, ensure responsible project delivery and protect the Island's unique characteristic, culture and the Welsh language.

"The potential economic, social, cultural and environmental opportunities associated with the proposed SMR programme are significant. We're determined to make sure Anglesey is fully equipped to take advantage of these opportunities - whether in new jobs, skills pathways, local supply chain growth, improved infrastructure, or longterm community investment."

Anglesey Council Leader and Economic Development portfolio holder, Cllr Gary Pritchard, welcomed the agreement, saying:

“Today’s agreement formalises our commitment to work closely with GBE-N as they explore the delivery of SMRs at Wylfa. Our priority is clear - to secure the best possible outcomes for the people of Anglesey, while ensuring any risks are properly managed and the Island’s voice is heard throughout the development process.

“We look forward to continuing this constructive partnership and to ensuring that the project brings lasting, positive benefits to Anglesey and its communities.”

**About GBE-N**

Great British Energy – Nuclear (GBE-N) is the government delivery body dedicated to supporting the development and deployment of new nuclear technologies in the UK. As an arm’s length body of the Department for Energy Security and Net Zero, GBE-N helps ensure long term energy security, supports net zero targets and promotes investment and innovation across the nuclear sector.

For further information please contact Ieuan Williams, Head of Communications, GBE-N: ieuan.williams@greatbritishnuclear.uk.

Agreement signing

https://www.gov.uk/government/news/gbe-n-sign-collaboration-agreement-with-iacc